# NID EICH EIDDO CHI I'W RANNU

#swiperightnotwrong

## Beth yw revenge porn?

- Ystyr cam-drin delweddau personol, y cyfeirir ato fel 'revenge porn' yw'r weithred o rannu (neu fygwth rhannu) delweddau neu fideos personol, naill ai ar-lein neu all-lein, heb ganiatâd gyda'r bwriad o achosi trallod.

## Pam nad ydych yn ei alw'n revenge porn?

- Rydyn ni'n credu bod y term 'revenge porn' yn gamarweiniol: nid yw'n ymwneud â dial ac nid yw'n bornograffi. **Cam-drin ydyw.**

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

- Mae cam-drin delweddau personol yn erbyn y gyfraith a gall arwain at hyd at ddwy flynedd yn y carchar. Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015.

## Beth ywvoyeuriaeth?

- Os ydych chi'n tynnu lluniau rhywiol neu noethlymun o rywun heb eu caniatâd, voyeuriaeth yw hynny. Llun o dan eu dillad? Uwchsbecian (upskirting) yw hynny. Mae'r rhain yn erbyn y gyfraith hefyd ac yn cael eu hystyried yn droseddau rhywiol.

## Beth yw blacmel rhywiol?

- Os yw rhywun yn eich perswadio i wneud gweithgaredd rhywiol ar-lein trwy dwyll ac yn ei recordio ac yn gofyn am arian, blacmel rhywiol yw hynny.

Revenge Porn Helpline

SWGfL Safe, Secure, Online

Home Office

# DYMA BETH DDYLECH EI WNEUD...

...Os ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod wedi cael eich effeithio.



## Pediwch â chynhyrfu

Mae help ar gael a dydych chi ddim ar eich pen eich hun.

## Cael eich bygwth

Peidiwch â siarad â nhw, blociwch nhw a pheidiwch â rhoi arian iddyn nhw.

## Mynnwch dystiolaeth

Tynnwch sgrinluniau o'r cynnwys a rannwyd ac unrhyw negeseuon.

## Rhowch wybod i'r heddlu

Ffoniwch y rhif ar gyfer galwadau nad ydynt yn alwadau argyfwng.

## Cael cefnogaeth

Siaradwch â'ch teulu neu ffrind da, siaradwch â'ch tiwtor neu ffoniwch y Gwasanaethau Myfyrwyr.




**Cysylltwch â ni** i gael cyngor cyfrinachol am ddim. Gallwn helpu i dynnu eich lluniau oddi ar y rhyngrwyd, anfonwch y dolenni atom.

Gallwn helpu gyda

- Delweddau preifat a rannwyd
- Bygythiadau i rannu
- Blacmel/blacmel rhywiol
- Voyeuriaeth/Uwchsbecian

Dydd Llun – dydd Gwener 10 – 4pm

help@revengepornhelpline.org.uk

0345 6000 459

revengepornhelpline.org.uk